Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Ponsonby o Shulbrede**
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Y Cynghorydd Ioan Thomas
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SE

**Cyfeirnod yr MOJ:** ADR123624

22 Mai 2025

Annwyl Ioan,

**CYNNIG CYNGOR GWYNEDD YNGLŶN Â THROSGLWYDDO'R AWDURDODAETH GYFIAWNDER I'R SENEDD**

Diolch am y llythyr dyddiedig 24 Ebrill at yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gan eich rhagflaenydd fel Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Beca Roberts. Fel gweinidog sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â Datganoli a'r Undeb, rwyf yn ymateb ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

Rwyf yn ddiolchgar i chi am dynnu fy sylw at y cynnig a fabwysiadwyd yng nghyfarfod diweddar Cyngor Gwynedd. Rwyf yn ymwybodol bod cynnig tebyg hefyd wedi'i fabwysiadu mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd ar ddiwedd 2023.

Nodaf eich cyfeiriad at y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Comisiynwyd hwn gan Lywodraeth Cymru a gwnaeth lawer o argymhellion, nid pob un ohonynt wedi'u targedu at Lywodraeth y DU. Er nad ydym yn cytuno â holl argymhellion y Comisiwn, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni cyfiawnder mewn ffordd sy'n gwasanaethu pobl Cymru orau. Rydym, er enghraifft, wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gasglu a dadansoddi data, a oedd yn faes o ddiddordeb i'r Comisiwn.

Diolch eto am eich diddordeb yn y ffordd y cyflawnir cyfiawnder yng Nghymru.

Cofion cynnes,

**YR ARGLWYDD PONSONBY O SHULBREDE**

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753

**E** hiips://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www gov uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ